




Croeso i Helen a Keith tenantiaid newydd y Llew Gwyn. Mae Helen yn gyn nyrs a Keith yn gyn bostman a rhyngddynt felly yn barod am deliveries o bob math!

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

AGOR Y STAFELL HAEARN



Ar y 15fed o Dachwedd yn dilyn gwaith adnewyddu, agorwyd y Stafell Haearn, Eglwysfach yn ffurfiol gan Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Wyn Evans. Roedd y seremoni'n benllanw ar flynyddoedd o ymdrech ac yn fuddugoliaeth i'r gymuned yn y frwydr i sicrhau'r adeilad fel adnodd cymdeithasol

Mae'r adeilad haearn trawiadol dros gan mlwydd oed a dyma'r unig ganolfan ym mhlwyf Ysgubor y Coed sy'n cwmpasu pentrefi Ffwrnais, Glandyfi ac Eglwysfach. Cofrestrwyd yr adeilad ar raddfa 2 gan CADW ac mae o fewn dalgylch Biosffer Dyfi, Gwarchodfa Natur Dyfi a Gwarchodfa'r RSPB.

Pum mlynedd yn ôl roedd y Stafell Haearn yn prysur droi'n adfail gyda thyllau sylweddol yn y muriau. Y gobaith oedd cael grŵp lleol i gymryd cyfrifoldeb am y lle a chychwyn ar y gwaith o adfer. Ni fu hyn yn bosib. Er i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n gyson gan y gymuned prin oedd y manylion am berchnogaeth. Ar ôl ymchwil canfuwyd mai Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi oedd y perchnogion a phenderfynodd y Cyngor Plwyfol Eglwysig gymryd cyfrifoldeb am y dasg o adnewyddu. Cafwyd trafodaethau hirfaith ac ar y 30 Mai 2012 cytunwyd ar brydles o 25 mlynedd o dan adain cwmni cyfyngedig gyda chyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr.

Tair blynedd yn ôl cychwynwyd o ddifri ar godi pres a chafwyd grant sylweddol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ac arian o gyrff eraill. Casglwyd swm cyfatebol gan y Cyngor Plwyfol ac roedd modd cychwyn ar y gwaith adeiladu. Cysylltwyd â phenseiri arbenigol - Cwmni Catalina - ac ar ôl proses o dendro rhoddwyd y gwaith i West Wales Restoration. Dechreuwyd yng Ngorffennaf 2012 ac mae'r gwaith nawr wedi'i gwblhau. Mae trigolion Ffwrnais, Eglwysfach a Glandyfi yn arbennig o falch i'r cytundeb gael ei ennill gan gwmni lleol gyda dau o'r gweithwyr yn byw yn yr ardal.

Trawsnewidiwyd y neuadd gydag ychwanegiad ar yr ochr orllewinol, toiledau newydd (gan gynnwys cyfleusterau i'r anabl), goleuadau a llawr newydd, adnewyddu'r llwyfan Fictoriaidd, cegin fodern a chyfarpar clyweled. Ail luniwyd y dirwedd yn llwyr gyda pharcio i bum car, parcio i'r anabl a gardd fechan o dan hen gastanwydden. Rhoddwyd gryn

gymorth i glirio'r safle gan gwmni Carillion, y contractwyr sy'n gyfrifol am ledaenu'r ffordd yng Nglandyfi. Derbyniwyd grantiau gan Gyngor Ceredigion, Cynnal y Cardi, CAVO, Cronfa Eleri a sawl ymddiriedolaeth arall. Yn naturiol rhoddwyd oriau o ymdrech wirfoddol gan aelodau'r Cyngor Plwyfol, ymddiriedolwyr y cwmni cyfyngedig a thrigolion yr ardal. Er enghraifft pan ofynnwyd am gymorth i ddymchwel wal ger yr adeilad cyrhaeddodd deuddeg o ddynion cryf a chwblhawyd y dasg mewn llai na dwy awr! Ni ddylid anghofio am help Sefydliad y Merched a dorrodd syched y gweithlu hwn gyda phaneidiau o de a chacennau!

Ar ddiwrnod y seremoni agor cafwyd gwasanaeth hyfryd yn yr eglwys a phregeth rymus gan yr Esgob. Soniodd am ei gysylltiadau a'r ardal ac er mai plwyf Ysgubor y Coed yw'r plwyf mwyaf gogleddol yn ei Esgobaeth bod y lle'n agos iawn at ei galon. Talodd deyrnged hael i'r plwyfolion am eu hymdrech i adfer y Stafell Haearn. Ar gychwyn y gwasanaeth canwyd nifer o ganeuon gan ddisgyblion ysgol Llangynfelyn. Daeth y diwrnod a'r holl waith i ben gyda'r esgob yn dadorchuddio plac yn y Stafell Haearn.

Llongyfarchiadau i bawb a weithiodd mor galed i adfer yr adeilad. Mae'r cyfan yn wledd i'r llygad ac oddi mewn a thu allan yn drysor i'r gymuned. Da dweud bod defnydd helaeth ar y Stafell Haearn yn barod gyda Sefydliad Y Merched, Y Cyngor Cymuned a mudiadau eraill yn manteisio ar y cyfleusterau newydd.

Gwleidydd Lleol y Flwyddyn

Llongyfarchiadau gwresog i'n cynghorydd lleol, Ellen ap Gwynn, ar ddod i'r brig yn y categori 'Gwleidydd Lleol y Flwyddyn' yng ngwobrau ITV Cymru. Dyfarnwyd y wobr i Ellen wedi iddi ddangos arweiniad clir yn ystod y llifogydd yn gynt eleni yn Nhal-y-bont a gogledd Ceredigion, ychydig wythnosau yn unig wedi iddi ddod yn arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

Wedi'r seremoni, dywedodd Ellen: "Roedd yn fraind o'r mwyaf i dderbyn y wobr hon, nid yn unig i mi'n personol ond hefyd ar ran Cyngor Sir Ceredigion - mae'r wobr yn amlygu gwaith ein swyddogion yn ogystal ag aelodau o bob plaid, ac mae'n cydnabod ymroddiad y Cyngor i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl Ceredigion".

Rydym i gyd yn gyfarwydd â gwaith caled Ellen dros yr ardal, ac mae'n dda ei weld yn cael ei gydnabod ar lefel cenedlaethol.



Nerys Evans yn cyflwyno'r wobr i Ellen ap Gwynn

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis.

GOHEBYDDION LLEOL

Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach/Ffwrnais:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin	832230
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
Tre'r Ddôl	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483

CYMEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:	Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Ysgrifennydd:	Siân Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanygrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry-Jones, Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin a Llywodraeth Gymru

Llythyr

Annwyl Olygydd,
Gair i ddiolch o galon i nifer
o drigolion Tal-y-bont am fy
nodd i yn ddiweddar pan y
rhedais ras hanner marathôn
Caerdydd ar 13ain Hydref.
Tywynnodd yr haul anrhom
ac roedd yr awyrgylch a'r
cefnogaeth ar hyd strydoedd y
ddinas yn wych! Gorffennais
mewn un awr a 51 munud a
llwyddais i godi bron £1,000
i Age Cymru Caerdydd a

Ceredigion. Diolch yn fawr
eto i bobl Tal-y-bont. Rwyf i
a'r teulu yn edrych ymlaen at
weld pawb pan fyddwn adre yn
Coetmor dros y nadolig.
Cofion cynnes
Gwenno Coetmor

Dymuna Heulwen, Ifan
ac Elfyn
Central Stores Tal-y-bont
Nadolig Llawen i'w holl
gwsmeriaid a diolch am y
gefnogaeth drwy gydol y
flwyddyn

**Bistro
Gannets**



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Dyddiadur

Rhagfyr

16 Bethel 2 Gweinidog.
Nasareth Oedfa Nadolig yr
Ofalaeth
Rehoboth Oedfa Nadolig yr
Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11 Boreuol
Weddi
Capel Rehoboth Taliesin 6 o'r
gloch Gwasanaeth Nadolig
Cymunedol
19 Neuadd Goffa 8 o'r gloch
Gyrfa Chwist Dofednod
(Cymdeithas Sioe Talybont)
23 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth
Eglwys Dewi Sant 5 Gwasanaeth
Garolau
24 Bethel 5.30 Gwasanaeth y Plant

25 Bethel 10 Gweinidog
Eglwys Dewi Sant 8.30 Cymun
Bendigaid

Ionawr

6 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 5 Gweinidog
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid
25 Cinio Blynnyddol CFFI Tal-y-bont
29 Neuadd Talybont 8 o'r gloch.
Cyfarfod Agored i drefnu Rali
C.F.F.I Ceredigion.

**Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu eich
sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech
ddanfod y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442),
glenysedwards33@btinternet.com
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn
nesaf o Papur Pawb.**

GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Nos Fercher 19 Rhagfyr
8.00 o'r gloch
yn y Neuadd Goffa

Croeso i bawb



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru

CRACER y NADOLIG

Ddydd Sul 16 Rhagfyr
3.00 ymlaen
Caffi Cletwr, Tre'r-ddôl.
Ymunwch â ni i ddathlu ein
rhodd Nadolig orau eleni

Bydd cyhoeddiad arbennig,
ond bydd rhaid aros tan y
diwrnod i glywed mwy!

Dewch â phlatiad
o fins-peis, pethau sawrus,
byrbrydau
Bydd diweddariad sydyn ar
broiect Cletwr
Dilyniir gan raffl y Nadolig i
godi arian at y fenter.

Mathew Davies Plymio a Gwresogi



07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwyr • Olew • Tanwydd Solêr • Solar

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwalt gan Richard



10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2012 – dros £15,400 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau
sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2013

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'



DIOLCH

Dymuna Elin a Rhys Williams a'r teulu, Caerfyrddin (Mae Elin yn ferch i Emyr a Leisa Davies, Llety Ifan Hen Bontgoch) ddiolch yn fawr iawn i bawb o ardal Papur Pawb a roddodd arian i noddi Jon Woen i redeg Marathon Eryri yn ddiweddar er mwyn codi arian i Heti, merch fach Elin a Rhys, i dderbyn therapi llefaredd arbenigol yn Rhydychen. Llwyddwyd i godi dros £4,500.

Dymuna Gwyn a Fal Jenkins a'r teulu ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam, Lilian Jenkins, Penparcau. Diolch hefyd am y cyfraniadau at elusen Ffagl Gobaith a Ffrindiau Ysbyty Tregaron.

Hoffai Dylan a Helen Roberts, Llwyngwair, Tal-y-bont, ddiolch o galon am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach. Gwerthfawrogwyd hefyd consym eu ffrindiau amdani. Ganed Evelyn Sofia Lois yn Ysbyty Singleton, Abertawe, ar 23 Hydref.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Jan Boorman, Bronallt, Tre Taliesin, sy'n dod dros driniaeth yn Ysbyty Bronglais. Hefyd i Monica Potts, Tre Taliesin, sydd wedi torri ei throed ac Eiriona Metcalfe, Nirvana, Tre Taliesin sydd wedi torri asen, ar ôl cwmpo'n ddiweddar. Brysiwch wella bawb!

Dymunwn wellhad buan i Aldwyth Morgan, Maes Mawr, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais i gael triniaeth ar ei chlin. Gwellhad buan hefyd i Gwyndaf Evans, Maes-y-deri, wedi iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Abertawe.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Tegwen Evans, Pen-y-graig, Bont-goch ar ennill gwobr yng nghystadlweth Cracer Dolig rhaglen Heno ar S4C.

Llongyfarchiadau i Mrs Chris Gilbert, Sŵn-y-Nant, Tre'r Ddôl, sydd wedi ennill gwobrau am osod blodau yn Rali Nadolig Sefydliad y Merched.

Ffair Aeaf

Llongyfarchiadau i Marion Evans Tynant, a ddyfarnwyd yn brif bencampwr yng nghystadlweth



Llun: Tegwyn Roberts
Marion Evans a'i gwobrau

Pobl a Phethe



Gwilym Huws a'r Parch Richard Lewis yng nghwmni Karen Morgan a Sharon Rose Banc Bwyd St Anne's Penparcau

Apêl Bethel i'r Anghenus

Mae'n anodd credu, yn y dyddiau hyn, bod rhai sy'n byw yn ein plith yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle maent yn methu fforddio prynu nwyddau sylfaenol megis bwyd iddynt nhw eu hunain a'u teuluoedd. Ond dyna dristwch pethau. Pobl yw'r rhain sy'n cael eu hunain mewn argyfwng, a hynny gan amlaf yn ddirybudd wrth iddynt golli eu gwaith, oherwydd salwch neu yn sgil perthynas yn chwalu.

Dyma pam, ym mis Ebrill eleni, y lansiwyd Stordy'r Jiwbilî, sef 'banc bwyd', gan aelodau Eglwys St Anne, Penparcau. Yr hyn a wneir yw camu i mewn gyda chyflenwad o nwyddau angenrheidiol i bara am ychydig ddyddiau hyd nes caiff y trafferthion cychwynnol eu datrys. Yn ystod pedwar mis cyntaf y Stordy, roedd 157 o bobl wedi derbyn cymorth. Mae'r drefn yn gweithio trwy asiantaethau lleol megis Cyngor Ar Bopeth a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cadw cyflenwad o dalebau i'r anghenus y gellir eu cyfnewid am nwyddau yn y Stordy.

Dros gyfnod o bythefnos ym mis Tachwedd, bu aelodau Eglwys Bethel wrthi'n brysur yn casglu bwydydd tun, pacedi bwyd a nwyddau eraill i'w hanfon i'r banc bwyd ym Mhenparcau. Trefnwyd dyddiau penodol i'r aelodau gludo nwyddau i'r Festri, a chasglwyd gwerth tua £400 o nwyddau drwy apêl yr Eglwys. Fore Sul 25 Tachwedd cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan arweiniad Geraint Evans ar ein cyfrifoldeb ni fel Cristnogion i roi help llaw i'r anghenus. Fel rhan o'r gwasanaeth, cafwyd cyflwyniad byr gan un o weithwyr Stordy'r Jiwbilî yn sôn am eu profiadau, a'r ffaith bod y rhai oedd yn cael eu hunain mewn argyfwng dros-dro yn dod o sawl haen o gymdeithas.

Mae Swyddogion Eglwys Bethel yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at yr Apêl, a gobeithir ailadrodd yr apêl eto ym Methel yn 2013.

ffowl yn i'r ffwrn, yn Ffair Aeaf Llanelwedd. Roedd hefyd yn is-bencampwr am y twrci 16 pwys a drosodd, cyntaf am hwyaden, cyw iar o dan 8 pwys a chyw iar dros 8 pwys, ac ail a thrydydd am dwrci dan 16 pwys.

Roedd Rhydian Tynant hefyd yn dangos hether a bustach tew yn adran y gwartheg duon Cymreig ac mi gafodd y drydedd wobwr mewn dwy gystadlweth gref.

Rydym hefyd yn llongyfarch Beca Flemming, Dôl Pistyll, ar ddod yn ail am addurno yw.

Croeso

Croeso i Helen a Keith Pritchard, a'u mab Callum, sydd bellach yn rhedeg y Llew Gwyn. Callum fydd y cogydd yno.

Ffarwelio

Ffarweliwn â Mrs Edna Evans, Maes-y-Deri, sydd bellach wedi ymgartrefi yng nghartref Hafan-y-

Waun, ac hefyd gyda Mrs a Mrs Ebenezer, Maes-y-Deri, sydd wedi symud i Gartref Abermad.

Cydymdeimlo

Rydyn ni'n cydymdeimlo'n fawr â Brian a Beti Wyn Davies, Rhos, Tre Taliesin, a'r teulu i gyd ar ôl i Brian golli ei annwyl fam, Rachel, yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Gwyn Jenkins, Maesgwyn, ar golli ei fam; Jack White, Caedeintir, ar golli ei wraig, Mrs Barbara White a Gerwyn Breeze a Menna Morgan, Dôl Pistyll, ar golli tad a thad-yng-nghyfraith.

Cydymdeimlwn a Sue James Is-y-Coed Tal-y-bont ar golli ei thad ar ddiwedd mis Tachwedd Mr Geoff James, Tynwyn.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Yn unol â'r arfer blynyddol, fe gynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Cofio yn y Neuadd Goffa ar 11 Tachwedd 2012. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i'r pentref ddod ynghyd i gofio'r rheiny o Dal-y-bont a gollodd eu bywydau yn y rhyfeloedd mawr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Peter Jones, a darllenwyd y rhestr o'r rhai a gollodd eu bywydau gan Goronwy Jones, cyn i Steffan Thomas ganu'r trwmpeid. Gosodwyd dwy dorch, a gyfrannwyd gan y Cyngor Cymuned, gan Bob Southgate a Maureen Jenkins. Yn ystod yr emyn olaf, codwyd £145 yn y casgliad er Apêl Pabi'r Llang Brydeinig Frenhinol. Diolch i bawb am eu cyfraniad hael.

Geraint yn cyrraedd ffeinal Fferm Ffactor

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigcaranau, ar gyrraedd ffeinal cystadlweth Fferm Ffactor S4C.

Er mai i Ynys Môn aeth y cerbyd *Isuzu* yn y diwedd, roedd y beirniaid yn uchel iawn eu clôd o Geraint a'i berfformiad yn ystod y gyfres. Yn ôl Geraint, uchafbwynt y gyfres iddo ef oedd gwneud y caws: "Roedd tipyn i'w wneud yn y dasg yna, o gydweithio er mwyn dewis blas, yna cyfarch pobl ar y stryd i ofyn eu barn a meddwl am enw a logo i'r caws. Wnes i byth ddychmygu ar ddechrau Fferm Ffactor y byddwn i'n gweld cynnyrch roeddwn i wedi ei greu ar y silffoedd".

Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Dymuna Kathleen Richards, Y Bryn Nadolig Llawen i'w holl ffrindiau a chydabod a diolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod y flwyddyn

Goleuo Coeden Nadolig Tal-y-bont



Penri Hughes a Louisa Williams, llysgenhadon yr ysgol, yn goleuo'r goeden.



Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Greg Spencer, Tŷ Manceinion, Tre Taliesin, ar ei briodas â Sophie Fox yn Chichester ar 24 Tachwedd.

Ffair y Neuadd Goffa

Ar ddydd Sadwrn, 24 Tachwedd 2012, daeth criw da i'r Neuadd Goffa ar gyfer y ffair flynyddol. Am ddwy awr, cafwyd cyfle i fwynhau'r stondinau a drefnwyd gan yr amrywiol gymdeithasau sy'n defnyddio'r Neuadd. Uchafbwynt y ffair, fel arfer, oedd tynnu tocynnau raffl y gwahanol stondinau, a da oedd gweld cynifer o bobl yn ennill gwobr. Codwyd £1261.35 gan y ffair, fydd yn mynd tuag at y costau cynyddol o redeg y Neuadd.

Lluniau Arthur Dafis



Golygydd cyffredinol Papur Pawb, Gwyn Jenkins, yn arddangos yr hen luniau sydd wedi eu sganio o archif y papur



Cyflwynwyd Hamper Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd yn ei absenoldeb gan Dei Nutting i'r enillydd, Evan Evans

TRYWERYNWS !!



Ioan Gwyn

Wel, nethoch chi fwynhau'r perfformiad? Do glei! Daeth Cwmni Mega a'i bantomeim blynyddol i Dalybont a chafwyd dwy noson gampus yn y Neuadd. Dim o'ch Sinderellas na Jac y Ffeuen – na roedd panto eleni yn teithio (mewn mwy nag un ystyr) o dan yr enw Trywerynws ac yn cyflwyno stori Gymraeg mewn gwisg Rufeinig.

Yn ganolbwynt i'r stori fe welson ni'r Ymerawdwr Cawraisiws yn cam-drin a rheibio tir a chyfoeth y Brythoniaid. Mae Cawraisiws yn mynnu sefydlu tref o'r new Balanws gerllaw Trywerynws gan ddefnyddio dŵr glân o ffynhonnau diddiwedd Cambria. Er mwyn adeiladu argae i sicrhau cyflenwad dŵr i'r dref foethus rhaid meddiannu'r tir yn gyntaf a threchgu'r werin. Ond mae un dyn ifanc yn gwrthryfela yn erbyn yr anghyfiawnder hwn ac yn penderfynu gweithredu i achub ei bobl. Owain Llywelyn yw arwr dewr a chyfrwys y sioe a gyda help hud a lledrith ei ffrind Ellectws-ddewin, mae'n llwyddo i drechu'r Ymerawdwr Cawraisiws am byth. Mae'r sioe yn gorffen gyda phriodas rhwng Owain a'i gariad Elen mewn capel bach hyfryd o'r enw Capel Celyn – diwedd glo hapus fel y dylid gweld ym mhob panto go iawn. Sgwennwyd y sgript hwyliog gan Dafydd Emyr ac roedd y caneuon ardderchog gan Gwyneth Glyn.

Roedd un o'r actorion – Ioan Gwyn, Maesgwyn Tal-y-bont – yn chwarae adef fel petai ac fe gafodd Papur Pawb sgwrs gydag Ioan cyn y perfformiad.

Sut gawsoch chi rhan? – O ni wedi clywed bod Cwmni Mega yn chwilio am actorion i'r pantomeim felly cysylltes i â Dafydd Hywel,

CARREG ATEB



Yn gynharach eleni aeth Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri Talybont ar wyliau i'r Unol Daleithiau ac yn ystod eu teithiau gwnaed darganfyddiad syfrdanol. Dyma Dilwyn i adrodd yr hanes:

“Ym mhentref *Granville*, canolfan Dyffryn y Chwareli yn nhalaith Efrog Newydd ac ar y ffin â *Vermont* yr oeddem ni. Roedd Carys a minnau yn ymweld â mynwent *Mettowee* er mwyn gweld carreg fedd hen nain i Carys a ddaeth yn wreiddiol o Gorris. Bu hi farw yn 27 oed ar enedigaeth plentyn. Wrth weld y bedd cawsom ein synnu fod dau blentyn wedi eu

arweinydd a sylfaenydd y cwmni. Darllen y sgript, mynd i gartref y cwmni yn Llanelli, gwneud gwrandawriad a chael y rhan.

Beth am eich cymeriad chi? – Dw i'n chwarae rhan milwr o'r enw Teria ac mae gen i fêt Bac (Bac/Teria – geddit?). Mae gan Cawrasiws obsesiwn am lanweithdra ac mae e'n wylidwrus iawn o ddau filwr allai heintio ei gynlluniau am Balanws. Y syniad i gychwyn oedd i Teria siarad gydag acen Caerdydd ond ar ôl trafod – ac o ystyried y stori – cafwyd syniad gwell ac mae Teria'n defnyddio acen Lerpwl. Oce, wâc!

Ydi hyn yn anodd? – Wel ar un olwg ydi. Rhaid i chi beidio anghofio a chadw'r acen drwy gydol y perfformiad. Ar yr ochr arall, dyma sut i chi'n dysgu a dweud y geiriau ac felly mae'r peth yn dod yn naturiol.

Faint o berfformiadau sy? – Dau ar hugain o berfformiadau dros gyfnod o saith wythnos. Dechrau yn y Lyrice Caerfyrddin a gorffen ym Mhafiliwn y Bont ar yr 21 o Ragfyr. Rhwng y ddau le byddwn ni wedi teithio o un pen o Gymru i'r llall ac mewn sawl lle bydd dau berfformiad mewn diwrnod.

Mae'n swno fel gwaith caled? – Mae e. Rhaid i chi deithio i'r dref – i'r Barri er enghraifft – ac yn gyflym iawn gweld maint y llwyfan. Mae'r set yn fawr ac wrth i ni symud o un theatr i'r llall bydd llai o le a rhaid bod yn ymwybodol o hyn. Wedyn rhaid gwneud y sioe – falle yn y bore am 10.00 ac wedyn am 1.00. Yna sioeau fory a symud mlan i'r dref nesaf.

Chi wedi gwneud llawer o sioeau plant gyda Chwmni Arad Goch. Oedd hwn yn help, neu a yw panto'n hollol wahanol? – Roedd e'n help ond rhaid cofio mai panto yw panto. Mae 'na lot o fwan a gweiddi ac mae hynny'n rhan o'r gêm ond os na fyddwch chi'n ofalus allwch chi golli rheolaeth ar beth sy'n digwydd ar y llwyfan. Yn y perfformiadau yn y Rhyl roedd yn agos i ddwy fil yn y theatr – rhan helaeth yn blant. Os yw un yn dechre bwan, mae deg yn dilyn ac wedyn mae cannoedd yn bwan! Wrth gwrs mae pob cynulleidfa'n wahanol a dwi wedi dysgu shwt i ddellio â'r gweiddi. Un o'r triciau yw siarad â'r gynulleidfa ond eto rhaid bod yn ofalus. Rhan o'r grefft ond dyw e?

Beth am elfennau traddodiadol panto? – Wel, mha nhw yna. Watshwch mae e tu ôl i chi a phethau fel na. Ac mae'r agweddau technegol yno hefyd – mwg, golau llachar a'r cymeriadau'n gwibio i mewn ag allan o'r golau.

Ond mae yna hefyd bethau fydddech chi ddim yn disgwyl? – Oes, sioe i blant ie, ond lot o jôcs cyfoes, dychanol i oedolion. Un o'r pethau mwya' rhyfedd efallai yw'r llinellau mewn cynganedd.

O'r bas mae'n cael y bêl

Daw winner gyda'i annel

Iawn, fydd nhw ddim yn cael marc uchel yn y Talwrn ond ma' nhw 'na.

Ac mae gyda chi hoff linell? – Dim dwt – Et tu Dafydd El !!

Ac ar gyffon y linell, does ond un ffordd i orffen – Watshwch mas, mae e tu ôl i chi!!

GIE

claddu yn yr un bedd â hi. Er i daid Carys fod yn ddim ond dwyflwydd oed fe'i hanfonwyd ef yn ôl i Gorris ar draws yr Iwerydd dan ofal y llongwyr. Yn ôl yr hanes roedd y llongwyr yn clymu rhaff am ei ganol a'r pen arall yn sownd yn y mast er mwyn iddo fwynhau'r awyr iach pan fyddai'r tywydd yn ffafriol, ond yn sâff rhag mynd dros ochr y llong.

Wedi i ni dreulio ychydig amser yn y fynwent yn rhyfeddu at yr holl enwau a chyfenwau Cymreig yno, aeth John Jones ein cyswllt, a ni i ymweld â mynwent Elmwood, sef mynwent gyfagos, eto'n llawn o gyfenwau Cymreig, er mwyn gweld un bedd arbennig. Roedd y bedd hwn yn destun rhaglen Hel Straeon rhyw ddeng mlynedd yn ôl ac yn destun ymchwil hanes teulu i un athro o Gymru o'i deulu. Gan fod John Jones wedi cynorthwyo llawer iawn ar gyfer yr ymchwil a'r ffilmio, cafodd dâl am ei weithgarwch. Gwariodd yr arian ar dorri'r englyn ar gefn y garreg fedd, englyn meddai a ysgrifennwyd gan fardd mawr o Gymru!

Roedd John Jones yn synnu'n fawr fod y bardd arbennig hwn, Gwenallt Llwyd Ifan yn byw yn yr un pentref â ninnau!"

A dyma ochr arall yr hanes gan Gwenallt

"Pan yn gweithio fel athro yn Ysgol Glan Clwyd roedd gen i gyd-weithiwr, Iwan Hughes. Soniodd Iwan am ei hen hen dad-cu, Rhys Wynn Jones, a ymfudodd o Benmachno i'r Amerig a'i gyflogi fel glowr. Cafodd ddamwain saethu ac fe'i claddwyd ym mynwent Elmwood yn 37 mlwydd oed. Roedd Iwan yn bwriadu ymweld â'r fynwent i ail glymu'r cwlwm teuluol ar ol bwch o dros gan mlynedd a gofynnodd i fi sgwennu englyn i goffau Rhys Jones. Dyma'r englyn a welodd Dilwyn a Carys."

O'R CYNULLIAD

Fis diwethaf yn y Cynulliad, codais y ffaith fy mod yn bryderus iawn nad oes yn awr gwelyau argyfwng ar gael ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhwng yr M4 a'r A55 ers i ward Afallon gau yn ysbty Bronglais. Gan nad ydym eto yn gwybod pryd y bydd ward Afallon yn ail agor, mae yna fwlch yn y ddarpariaeth leol ac nid ydyw'n cael ei ddiwallu. Rwyf wedi holi Carwyn Jones i ymyrryd ar y pwynt pwysig hwn a chodi'r mater gan y Bwrdd Iechyd Hywel Dda a gobeithiaf yn fawr y bydd yn gwneud hynny.

Newyddion trist oedd clywed am y difrod a grëwyd gan y llifogydd yn Aberteifi. Mi es i lawr i Aberteifi i gwrdd â'r Cynghorwyr sir leol, John Adams-Lewis a Catrin Miles ynghyd ag ychydig o drigolion y dre i weld y difrod dros fy hun. Yn sgil y cyfarfod hwnnw, fe drefnais ail gyfarfod safle yn y dre, y tro hwn gyda chynrychiolydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn bresennol, er mwyn iddo weld y difrod ac i drafod pa gamau y gellid eu cymryd i osgoi sefyllfa o'r fath yn y dyfodol.

Mae yna drafodaethau wedi bod ers blynnyddoedd bellach ynghylch adeiladu canolfan iechyd newydd yn Nhregaron. Pwrpas datblygiad Cylch Caron byddai cyfuno gwelyau a thriniaethau'r ysbty, gwelyau gofal preswyl, meddygfa a thai ar yr un safle yng nghanol tref Tregaron. Erbyn hyn, mae'r cynlluniau wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol ond rydym dal yn aros am sêl bendith y gweinidog iechyd. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda hi droeon ac rwy'n gobeithio na fydd yna lawer mwy o oedi.

Yn olaf, rwy wedi dechrau arolwg er mwyn dod o hyd i'r ardaloedd yng Ngheredigion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyflymder band llydan gwael neu mewn rhai achosion, sydd yn methu derbyn band llydan o gwbl. Rwy'n gobeithio casglu gwybodaeth am y cyflymder sydd yn cael ei derbyn ar hyn o bryd mewn pob rhan o Geredigion. Mi fyddaf yna'n cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru. Mae croeso i unrhyw un rhoi gwybod i mi beth yw cyflymder eich band llydan drwy fy e-bostio ar elin.jones@cymru.gov.uk neu ffonio fy swyddfa ar 01970 624 516.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Croesawyd Dr Gerwyn Thomas, Aberaeron, i'r cyfarfod ar 13 Tachwedd. Bu'n feddyg teulu yn Aberaeron ers chwarter canrif, a soniodd fel mae pethau wedi newid yn ystod yr amser hwnnw. Nid yw meddygon yn cael eu galw bob awr o'r nos bellach i ymweld â chleifion, ac mae newidiadau mawr wedi digwydd yn y feddygfa hefyd gyda data pob claf yn cael ei gadw ar gyfrifiadur mewn canolfan ym Mhont-y-pŵl erbyn hyn. Wrth wrando ar ei sylwadau fe wnaethom ddysgu llawer am y gwasanaeth iechyd, y newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, a'r hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Diolchwyd i Dr Thomas gan Mai Leeding, ac yna mwynhawyd paned o de wedi ei baratoi gan Daphne Farthing ac Eirlys Jones.

JOHN HEFIN

Trist cofnodi marwolaeth y cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr John Hefin. Ganed John yn 1941 a threuliodd ef a'i frawd Geraint eu blynyddoedd cynnar yn Nhŷ'r Ysgol Taliesin lle'r oedd ei Dad, Huw yn brifathro. Hanai ei dad o gymoedd y de ond roedd gwreiddiau ei fam Megan yn Llangeitho. Bu tad Megan yn blismon yn Nhal y Bont ar un adeg.

Does rhyfedd i John ddisgleirio ym myd y ddrama. Roedd Huw yn cynorthwyo tu cefn i'r llwyfan gyda chwmni enwog Ceredigion – yn gofweinydd ac yn marcio dyfodiad cymeriadau i'r llwyfan ac fe gafodd deitl 'Y Clochdyd' am y gwaith pwysig

hwn! Roedd Megan yn actores nodedig yn serenau mewn cyfres o gynrychiadau Cwmni Ceredigion ac wedi hynny Cwmni Pendinas. Actor arall yn y teulu oedd Alwyn Jones, brawd Megan, a fu'n chwarae rhan y Cynghorydd Gwyther yn y gyfres Bobol y Cwm a rhannau blaenllaw ym mherfformiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar ôl gadael Ysgol Ardwyn aeth John i Goleg y Drindod Caerfyrddin a dod o dan ddylanwad Norah Isaac, darlithwraig a roddodd oes o wasanaeth i fyd theatr yng Nghymru ac yn arbennig felly i hyfforddi ac annog pobol ifanc i fentro i'r maes hwnnw. Gyda'i hegni a'i brwdfrydedd ysbrydolodd

Norah Isaac genhedlaeth gyfan o fyfyrwyr ac un o'r disgleiriaf oedd John Hefin. Penodwyd ef yn Bennaeth Drama BBC Cymru a gyda Gwenlyn Parry bu'n gyfrifol am greu Pobol y Cwm. Mae'n debyg mae'r deyrnged fwyaf un i John yw bod yr opera sebon yn dal yn un o gonglfeini amserlen S4C 38 mlynedd yn ddiweddarach.

Tra yn BBC Cymru cynhyrchodd a chyfarwyddo rhaglenni megis *Bus to Bosworth* gyda Kenneth Griffith; *The Life and Times of David Lloyd George* gyda Phillip Madoc; *Tough Trade* gyda Syr Anthony Hopkins a'r ffilm anfarwol *Grand Slam*, gyda Hugh Griffith, Sharon Morgan a Dewi Pws.

Derbyniodd anrhydeddau lu am ei waith – gwisg wen yr Orsedd, yr MBE am ei gyfraniad i fyd y ffilm yng Nghymru ac ym mis Hydref eleni gwobr Arbennig BAFTA am Gyfraniad Eithriadol i fyd y cyfryngau yng Nghymru. Yn yr un modd ag yr ysbrydolwyd ef treuliodd talp da o'i fywyd yn addysgu ac ysbrydoli eraill, yn gynhyrchwyr, awduron, actorion a myfyrwyr gyda'i arweiniad bywiog a hynaws.

Uwchlaw pob peth roedd John yn deall ei gynulleidfa i'r dim ac yn medru dwyn ei dalentau i fyd y ddrama glasurol â'r ddrama boblogaidd fel ei gilydd.

Danfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig Elin, ei blant Megan, Dylan a Lowri a'i frawd Geraint.

Clwb Ffermwrwyr Ifainc Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod AGM blynyddol y clwb yn neuadd Tal-y-bont diwedd mis Gorffennaf. Penodwyd swyddogion newydd yn ystod y cyfarfod am y flwyddyn nesaf sef David a Mair Jenkins Ynyseidiol yn lywyddion, Geraint Jenkins yn gadeirydd, Gareth Jenkins yn ysgrifennydd a Rhodri Richards yn drysorydd. Pob lwc i bob un yn eu swyddi newydd ar gyfer y flwyddyn brysyr sydd i ddod.

Yn wahanol i'r arfer cynhaliwyd cystadleuaeth 'speed shear' ar noson sioe Tal-y-bont o dan ofal y clwb. Roedd yn noson lwyddianus iawn a diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi ac i ymuno yn yr hwyl. Dechreuodd y flwyddyn newydd gyda noson social fach o dan ofal Derek Ty'n Ddraenen a'r bois a Ifor Esgair. Cafodd bawb gyfle i ddod i adnabod yr aelodau newydd sydd wedi ymuno gyda ni eleni. Croeso i bob un ohonynt.

Cynhaliwyd diwrnod maes y Sir eleni yn mart Llanybydder ar y 29ain o Fedi sydd chwe mis yn gynharach na'r arfer. Cafwyd canlyniadau calonogol iawn ar draws amryw o gystadleuthau gyda Richard John a Gareth Ynyseidiol yn dod yn drydydd yn y gystadleuaeth ATV, Geraint Cerrigaranau yn cael 1af am yrru tractor, tîm ffensio yn cael cyntaf sef Rhodri Richards, Geraint Cerrigaranau a Llyr Penbanc, a Llyr Ynystudur yn cael cydradd ail am y stocmon iau. Yn ychwanegol cafodd y tîm stocmon hŷn sef Geraint Cerrigaranau, Llyr Felinhen, Geraint Penpompren a Dewi Tyngraig drydydd, gyda Dewi Tyngraig yn cael ail fel unigolyn, a chafodd y tîm stocmon iau sef Alwenna, Gwenno, Ffion a Richard John drydydd hefyd, gyda Iestyn Evans yn drydydd fel unigolyn. Erbyn diwedd y dydd cafwyd llwyddiant mawr gyda'r clwb yn dod yn gydradd gyntaf.

Cystadleuaethau'r chwaraeon dan-do oedd yn nesaf ar y calendr ac fe aeth nifer o'r aelodau i neuadd Llanddewi Brefi ar nos Wener y 12fed o Hydref i gynrychioli'r clwb mewn amryw gystadleuaethau megis tenis bwrdd, dominos, tipit ac yn y blaen. Cafodd yr aelodau iau dipyn hwyl ac fe gafodd Gwenno Evans ail yng nghystadleuaeth y tenis bwrdd.

Roedd yr wythnosau yn prysur basio heibio a buan eto daeth hi'n amser ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Sir. Ar ôl yr holl ymarfer fe ddaeth hi'n amser cystadlu ac eto cafwyd cystadlu a chanlyniadau gwych. Cafodd Betsan Siencyn ail yn yr unawd offerynnol, Elen Thomas yn ail yn y canu emyn a'r unawd sioe gerdd ac fe ddaeth Dewi a Geraint i'r brig yn y gystadleuaeth stori a sain. Llonyfarchiadau mawr i bawb am eu hymdrech i gystadlu ac i gynrychioli'r clwb. Diolch hefyd i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at yr hyfforddi.

Cafodd dau aelod o'r clwb sef Dewi Jenkins a Geraint Jenkins drip lawr i Eisteddfod Cymru yn Abergwaun ar yr 17eg o Dachwedd i gynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth y stori a sain. Roedd yn ffrain mawr i gynrychioli'r Sir fel clwb a dyfarnwyd y ddau i'r ail safle yn y gystadleuaeth.

Ar nos Lun y 19eg o Dachwedd cynhaliwyd Cwis y Sir yn neuadd Ysgol Bro Pedr, Llambod ac fe aeth tîm o aelodau dros 18 y clwb yno i gystadlu ac i gynrychioli'r clwb. Roedd 25 o dimoedd yn cystadlu ac roedd tair rhan i'r cwis wedi rhannu yn gwestiynau cyffredinol, amaethyddiaeth a diogelwch y ffyrdd. Cyhoeddwyd canlyniadau'r cwis yng nghyfarfod misol y sir ar y nos Fercher ganlynol ac fe ddaeth tîm Tal-y-bont i'r brig yn y cwis Amaethyddiaeth.

Llonyfarchiadau mawr i Elin Jones Bryn yr Wyn, o glwb Tal-y-bont ar ei llwyddiant yn y Ffair Aeaf, yn y gystadlaethau magu llo yn adran y C.F.F.I trwy Gymru, gan iddi ennill y brif bencampwriaeth. Da awn ti Elin. Hefyd cafodd Dewi Jenkins y 4ydd safle yn y gystadlaethau barnu biff o dan 21.

Cawsom gyfle i gymdeithasu yn ei pharti nadolig eleni yn nhafarn y Llew Du yn Nhal-y-bont ar y 4ydd o fis Rhagfyr. Cafwyd noson hwylus ac roedd pawb wedi mwynhau.

Yn ôl yr arfer byddwn yn mynd o amgylch yr ardal ar y 11fed ar 18fed o Ragfyr yn canu carolau i godi arian tuag at elusennau lleol.

Edrychwn ymlaen yn awr i'r flwyddyn newydd am fwy o gystadlu a chymdeithasu.

Elgan Evans



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
 Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
 Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Lawnsiad Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Mae grŵp bach ohonom wrthi'n gwneud cynlluniau i lansio Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn yn y Flwyddyn Newydd.

Mae gennym sawl amcan:

1. Codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am hanes a threftadaeth ein cymuned
2. Cofnodi hanes Llangynfelyn
3. Darparu cyfleoedd i drigolion y plwyf, hen a newydd, i gwrdd â'i gilydd.
4. Hybu pobl i weithio ar y cyd ar brosiectau ymarferol am hanes a threftadaeth Llangynfelyn.

I ddechrau, prif weithgareddau'r Gymdeithas fydd cyfarfodydd misol, gyda siaradwr gwadd ar ryw bwn o ddiddordeb ynglŷn â hanes a threftadaeth yr ardal, gyda chyfle wedyn i gymdeithasu dros goffi a bisgedi. Unwaith bydd y grŵp wedi bod yn sefydlog, gobeithio bydd gweithgareddau eraill yn cychwyn, gan ddibynnu ar ddiddordebau'r aelodau.

Rydym wedi cael ymateb da wrth drafod ein cynlluniau, ond oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod os oes digon o ddiddordeb i redeg cymdeithas yn y tymor hir, rydyn ni'n mynd i gael nifer o gyfarfodydd 'prawf' i weld faint o gefnogaeth sydd.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 22ain o Ionawr 2013, am 7.30 ym y Festri Rehoboth, pan fydd cyfle i bawb drafod y cynlluniau a bydd Nigel Callaghan yn sgwrsio am ei waith ymchwil ar "Pwll Roman, Taliesin, yn y 1850au". Mynediad am ddim, croeso cynnes i bawb, dewch yn llu! Mwy o fanylion nes at y dyddiad drwy daflenni a phosteri.

Am fwy o fanylion cysylltwch â hanes@taliesin.co.uk neu ffonio 832573.



Yn ystod Cyfarfod Blynnyddol y defaid Moel a Chorniog swydd Dorset yn Royal Tunbridge Wells, anrhydeddwyd Iolo Davies, Doleifion Tre'r Ddol â chwpan am ei waith a'i gyfraniad fel beirniad cenedlaethol ac arddangoswr gyda'r defaid Moel a Chorniog. Cyflwynwyd y gwpan am y tro cyntaf eleni er cof am Mr David Matthews, Penybont ar Ogwr, cyn Lywydd y Gymdeithas.

**argraffu da
am bris da**

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yolfaf.com
01970 832 304 www.yolfaf.com

Melltith Ynteu Bendith Oedd Hâf Gwlyb 2012?



Diddorol iawn oedd darllen y drafodaeth rhwng y golygydd a Dr. Hywel Griffiths yn rhifyn Mis Hydref o Papur Pawb. Mor ychydig gall dyn ei wneud pan fydd y Fam Natur yn dangos ei dannedd. Yr unig ddewis sydd gyda ni pryd hynny yw ceisio mynd yn ddigon pell o afael y perygl.

Mae lle gyda ni yng Ngogledd Ceredigion i ddolch na cholodd neb ei fywyd adeg y llif mawr ym mis Mehefin eleni. Bu'r holl law 'rydym wedi'i' gael yn ystod yr haf eleni yn felltith fawr i lawer, ar yr un pryd mae wedi bod yn fendith i fwy. Bu Haf a Hydref 2012 y cyfnodau gwlypaf welais i erioed. Er ein bod wedi cael llifogydd gwaeth o'r blaen yn afon Ceulan, pan oeddem yn cael llifogydd coch Awst 'slawer dydd. Ni welais erioed o'r blaen gael tywydd mor wlyb i gael y cynhaeaf gwair yn yr haf a thywydd mor wlyb i gael y cynhaeaf llafur yn yr hydref yn yr un flwyddyn.

Fel arfer os oedd tywydd gwael i gael y gwair, byddai tywydd braf i gael y llafur, neu fel arall. Os oedd haf a hydref 2012 y cyfnodau gwlypaf welais i, 'roedd gwanwyn 2012 y gwanwyn gorau o ddigon a welais i erioed. 'Roedd yn bleser pur i gael bugeilio'r defaid i wyna. Doedd dim eisiau chwilio am gôt law na legins am wythnosau.

Os cofiwch chi, bu mis Chwefror, Mawrth ac Ebrill eleni yn dywydd annaturiol o gynnes a sych, ar ôl cael dau aeaf a haf sych cynt. Bu mis Mawrth y mis Mawrth poetha ers dechrau cadw cofnodion. Erbyn diwedd mis Ebrill 'roedd y bronnydd yn dechrau llosgi yn anarferol o gynnar yn y flwyddyn. 'Roedd yn argoeli am haf sych iawn, a'r cyfryngau yn darogan ein bod i mewn am haf poeth, a'r amaethwyr yn pryderu yn arw, gweld yr ogor yn darfod yn gyflym a dim argol am borfa'n dôt i droi'r da allan. Gwn fod ambell un wedi gweddio, nid yn gyhoeddus ond yn y dirgel, am gawd o law.

'Roedd wedi mynd yn greis yn ein gwlad a phanic mawr yn Lloegr. Rhoddwyd dogni caeth iawn ar ei thrigolion, a gorchymyn ar i bawb beidio gwastraffu diferyn o ddŵr yn eu gerddi na'u ceir. Bu'r llywodraeth yn San Steffan yn pryderu'n wirioneddol, 'roedd lefel y dŵr yn y ddaear wedi mynd yn beryglus o isel yn Lloegr, yn is na fu erioed o'r blaen. Yr oeddent yn dweud y byddai angen 2 flynedd o law cyson cyn y deue lefel y dŵr yn y ddaear yn ôl i'w lefel iawn. Buont yn trafod sut i gael dŵr o Gymru dros Glawdd Offa, a ni'r Cymry'n dechrau rhwbio'n dwylo yn meddwl am yr holl arian 'roeddem yn mynd i gael am ein dŵr.

Petai wedi para am fis arall byddai wedi bod yn drychinebus arnom. Dechrau mis Mai daeth Rhagluniaeth i'r adwy fel y mae wedi dod erioed. Cafwyd mis Mai bendigedig, glaw tyfu bron bob dydd ac argol am dyfiant rhagorol. Bu'r mis Mai hwnnw yn fendith fawr i bawb, yn enwedig i drigolion o amgylch Llundain ac i fyd amaeth yn gyffredinol, buan iawn cawd troi'r da allan. Cerddai clerc y Cyngor Bro heibio'r ffald bob bore i 'nol ei bapur dyddiol, ac yn achwyn yn arw i mi ei fod wedi colli'r tywydd braf ac wedi cael digon ar y glaw mewn wythnos, a minnau yn dweud wrtho, "Os am ydlan iawn, nid oes modd cael gormod o law ym mis Mai". Nid oeddwn fawr feddwl pan yn dweud hynny y byddai wedi para i lawio mor hir.

Mor anodd yw hi i blesio pawb yn yr hen fyd yma. Mae wedi bwrw 989 mm o law o 1-5-2012 i 30-11-2012. Mae wedi bod yn felltith fawr iawn i'r rhai oedd yn byw yn agos i afon neu nant, a wedi bod yn anodd i gael y cynhaeaf i mewn, ond ar yr un pryd mae wedi bod yn fendith i filoedd fu'n diodde o brinder dŵr. Buan iawn anghofiwyd am fynd a dŵr dros Glawdd Offa, 'rwyn siwr bod lefel y dŵr yn y ddaear wedi codi gryn dipyn erbyn hyn.

Gwilym Jenkins

MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH



Estynnodd ein Llywydd, Falyri Jenkins, groeso i Marian Weston, Comins Coch, i'r cyfarfod ar 19 Tachwedd. Bu gan Marian ddi-ddordeb mewn blodau ers pan oedd yn ifanc, ac mae wedi bod yn trefnu, gosod ac arddangos blodau ers nifer o flynyddoedd. Mae'n aelod o Glwb Blodau Aberystwyth a dros y blynyddoedd bu'n ysgrifenyddes ac yn llywydd gweithgar. Bu'n llwyddiannus iawn wrth gystadlu mewn gwahanol sioeau, ac yn ddiweddar enillodd dystysgrif ar ôl mynychu cwrs yn ymwneud â threfnu blodau. Ar y noson gwnaeth bum trefniant gwahanol ar gyfer y Nadolig, un yn null tapestri o Seland Newydd, ac ar y diwedd enillodd sawl aelod lwcus un o'r trefniannau mewn raffl. Talwyd y diolchiadau gan Eryl Evans. Ann Jenkins a Myfanwy James oedd yng ngofal y te.

Cyfarfu'r aelodau brynhawn Llun, 3 Rhagfyr, pan fu Falyri, Diana, Margaret, Eryl a Beti yn dangos y gwahanol addurniadau a chardiau a wnaed ganddynt ar gyfer y Nadolig, ac adroddodd Carys bennill ac ysgrif o'i gwaith ynglŷn â'r ŵyl. Mwynhawyd te a mins peis ar y diwedd.

Bags2school

Diolchwn yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd eu hen ddillad, esgidiau, bagiau a dillad gwely i'r ysgol. Daeth fan fawr i gasglu'r bagiau a byddant yn cael eu pwysu nôl yn y warws a gobeithiwn gael ychydig o arian i'r ysgol.

Trawsgwlad

Aeth dosbarth Miss Jones i gyd i gaeau'r Ficerdy yn Aberystwyth i gymryd rhan yng nghystadleuaeth trawsgwlad ardal Aberystwyth. Llongyfarchiadau iddynt i gyd am gymryd rhan yn enwedig Blwyddyn 3 am redeg yn eu cystadleuaeth trawsgwlad gyntaf.

Gala Nofio

Aeth saith o blant Cyfnod Allweddol 2 i'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Plasrugg i gymryd rhan yng Ngala nofio'r Urdd Rhanbarth Ceredigion. Roedd yn ddiwrnod prysur o gystadlu brwd. Daeth amryw ohonynt yn y 12 cyntaf sy'n dda iawn gan fod dros 80 o blant yn cystadlu mewn ambell ras.

Plant Mewn Angen

Daeth y plant a'r staff i'r ysgol yn eu pyjamas i godi arian i Blant Mewn Angen. Cafodd y plant fisedi Pudsey i bwdin amser cinio ac yn y prynhawn cafodd pawb gacennau a diod a chymerodd y plant ran mewn helfa drysor Pudsey.

Ysgol

Parti Tân Gwylt

Eleni eto cafwyd noson arbennig o lwyddiannus i ddathlu Noson Tân Gwylt. Yng ngofal y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, cafwyd gwledd o gawl blasus a rholiau wedi'u rhoi gan archfarchnadoedd Morrisons a'r Co-op. Diolchwn yn fawr iawn iddynt am eu cyfraniad hael ac i Mrs Linda Hicks am wneud y cawl. Roedd amryw o stondinau yn y neuadd gyda'r plant yn gwerthu losin a bisgedi cartref, pop corn, sudd a chacennau. Uchafbwynt y noson oedd yr arddangosfa tân gwylt gwyth yng ngofal Mr Malcolm Hayes. Diolchwn yn fawr iawn i gwmni Hayes McKenzie am noddi'r noson. Diolchwn hefyd i deulu Dolcletwr am eu caredigrwydd yn caniatâi i'r ysgol ddefnyddio'r cae tu ôl i'r ysgol ar gyfer y tân gwylt. Codwyd £580 ar y noson.

Cinderella

Cofiwch am ein Sioe Nadolig, *Cinderella*, fydd yn cael ei pherfformio yn Neuadd Llanfach am 6.30yh ar nos Fawrth Rhagfyr 18fed. Bydd ticedi ar werth ar y drws yn cynnwys paned a mins pei nôl yn yr ysgol. Mae croeso cynnes iawn i bawb!!



Cam wrth Gam

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwyth ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle – a derbyn grant hyfforddiant tra'n astudio.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd ac ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am bescyn gwybodaeth:

☎ 01970 639 601

✉ post@camwrthgam.co.uk

🌐 www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 14 Ionawr, 2013.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.meithrin.co.uk

Nofio



Fel arfer mae mis Tachwedd yn gyfle i'r ysgol gystadlu yn erbyn plant eraill y sir yng ngala rhanbarthol yr Urdd. Roedd tîm Ysgol Tal-y-bont mor gysaddeuol ag erioed a hoffwn i longyfarch pob un wnaeth gystadlu mor frwd. Llongyfarchiadau arbennig i Oisín Lludd am ddod yn drydydd yn ei ras unigol ac i Dylan Wyn, Gwydion, Penri a Tomos am ddod yn drydydd mewn dwy ras gyfnwied. Ardderchog fechgyn!

Yr Urdd

Cafwyd nifer o weithgareddau diddorol wrth ddechrau rhaglen Clwb yr Urdd eleni gan gynnwys sesiwn o ddawnsio Zwmba, bingo, addurno bisgedi Nadolig a gwneud addurniadau gan ddefnyddio orennau. Diolch yn fawr i'r staff fu'n cynorthwyo ac i Lucy Hughes

am ei hamser wrth hyfforddi'r plant i wneud y Zwmba.

Llysgenhadon

Llongyfarchiadau mawr i Penri Hughes a Louisa Williams am gael eu hethol yn llysgenhadon yr ysgol ar gyfer y flwyddyn 2012/13. Da iawn chi.

Llangynfelyn

Agoriad yr Ystafell Haearn, Eglwysfach



Ar brynhawn dydd Iau Tachwedd 15fed aeth holl ddisgyblion yr ysgol, staff a rhieni i Eglwys San Michael, Eglwysfach i wasanaeth i ddathlu agoriad swyddogol yr Ystafell Haearn. Bu'r plant yn canu ac yn llefaru i gynulleidfa fawr yn yr eglwys. Rhoddodd Esgob Tŷ Ddewi, y Gwir Barchedig Wyn Evans annerchiad diddorol iawn am hanes yr eglwys a'r Ystafell Haearn. Ar ôl y gwasanaeth aeth pawb i'r Ystafell Haearn am luniaeth hyfryd.

Gymnasteg



Llongyfarchiadau mawr i Ben Phillips, Blwyddyn 4, am gystadlu ym Mhencampwriaeth 'tumbling' Gymnasteg Cymru yn Hwlfordd. Roedd Ben yn aelod o'r tîm bechgyn 8-9 oed a ddaeth yn ail. Efallai welwn ni Ben yn cystadlu yn y Gemau Olympaidd yn y dyfodol.

Lab Straeon



Daeth Mrs Delyth Huws i'r ysgol i gyflwyno medalau a thystysgrifau i'r plant a gymerodd ran yn yr ymgyrch ddarlenn yn y llyfrgell yn Aberystwyth a Machynlleth dros wyliau'r haf. Llongyfarchiadau mawr i'r plant i gyd a lwyddodd i ennill y gwobrau am fenthg y llyfrau dros y gyliau.

Gwersi Beicio

Derbyniodd ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 gyfres o wersi beicio yn ddiweddar. Buont yn dysgu am reolau diogelwch ar y ffordd gan gynnwys mynd allan ar y ffordd rhwng yr ysgol a Thre'r Ddôl ar eu beiciau.



Tal-y-bont

Plant Mewn Angen



Mae'n dechrau bod yn draddodiad yn yr ysgol bellach i gynnal digwyddiad bywiog yn ystod diwrnod Plant Mewn Angen. Dymuniad y plant eleni eto oedd iddynt gael gwisgo pyjamas i'r ysgol ac i gynnal sioe "Talent Tal-y-bont". A dyna chi dalent sydd gyda ni! Canu swynol, dawnsio egniol ac offerynwyr o fri yn cynnal cyngerdd o tua awr i gynulleidfa o rieni a staff. Ac wrth gwrs fe wnaeth pawb fwynhau'r paned a'r cacennau wedyn. Codwyd swm o £77.80 i Blant Mewn Angen hefyd – Ardderchog blant!

Diwrnod y Cofio

Ar ddiwrnod y cofio eleni, fe wisgodd Ieuan a Lewis mewn lifrau'r cadetiaid i'n hatgoffa ni o bwysigrwydd cofio am bobl o'r ardal yma a wnaeth ymladd a cholli eu bywydau mewn rhyfeloedd ar draws y byd. Roedd eu gweithred syml a diroddres yn effeithiol iawn. Da iawn chi fechgyn.



Bws Cogino / Ysgol Penweddig



Tro plant Ysgol Tal-y-bont oedd hi i ymweld â'r Bws Coginio eleni. Pwrpas y bws yw i hybu diddordeb mewn coginio mewn plant oedran ysgol cynradd. Cafodd pawb cryn dipyn o hwyl yn paratoi danteithion blasus. OND gan fod cymaint o blant am fynd ar y bws coginio, roedd yn rhaid rhannu'r plant i ddau grŵp. Ga i ddiolch yn fawr iawn i Mr Gwenallt Ifan, Pennaeth Ysgol Penweddig, a'i staff, am gytuno i roi gwers tecstilïau i un grŵp tra bo'r grŵp ar y bws. Roedd yn weithgaredd gwerth chweil a'r plant wedi mwynhau'n fawr wrth greu eu haddurn Nadolig.

Tystysgrifau darllen

Roedd hi'n braf iawn cael croesawu cyn aelod o staff yr ysgol yn ôl yma i gyflwyno tystysgrifau i nifer o'r plant am fod yn rhan o gynllun darllen Llyfrgell Ceredigion. Bwriad y cynllun yw hybu darllen a byddai'r plant yn cael gwobrau am ddarlenn yn gyson. Yn y llun gwelir Delyth Huws, Llyfrgellydd Plant Ceredigion yn cyflwyno'r tystysgrifau i Nia, Billy, Glain, Miriam, Heledd, Eli, Gethin, Thérèse a'i chwaer fach Grace sydd yn y Cylch Meithrin. Daliwch ati i fwynhau'r darllen.



COELION CYMRU

Ar ôl imi ddweud ar derfyn fy ysgrif y mis diwethaf ar Evan Isaac y byddwn yn rhoi sylw i'w lyfrau y tro hwn gwelais fod y cyfaill Dr Bruce Griffiths yn ei golofn 'Briwsion Bruce', yn rhifyn y gaeaf o'r *Casglwr*, wrth drafod llyfr newydd ei gydeiriadurwr Dafydd Glyn Jones, *Rhywbeth yn Trwblo*, sy'n trafod ysbrydion, yn cyfeirio at, "Ymddangosiad Ysbrydion", yn *Coelion Cymru*, llyfr ardderchog Evan Isaac". Nid ef yw'r unig un i ganmol y gyfrol a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1938, bum mis cyn marw'r awdur.

Fel y dywedais y tro diwethaf roedd T.Gwynn Jones yn gyfaill agos ac yn edmygydd o waith Evan Isaac – ef a luniodd yr englyn ar ei garreg fedd ym mynwent Llangynfelyn. Cyfeirir at gyfrol gampus T.Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk Customs* (1930), yn y bennod 'Ymddangosiad Ysbrydion', wrth gyflwyno stori ysbryd o eiddo'r Parchg. Ddr. Owen Thomas (taid Saunders Lewis). "Pan oedd y Doctor yn ddyn ieuanc yn Sir Fôn, yr oedd iddo gyfaill yn caru merch ieuanc a oedd yn byw rai milltiroedd i ffwrdd. Un noswaith wrth ddychweld o garu, braidd yn hwyr, a dyfod heibio i blas bychan, gwelai yn dynesu ato wraig wedi ei gwisgo dipyn yn hynod. Cyfarchodd hi â 'Nos da', ac atebodd hithau, 'Na ddychrynwch: gwyddoch pwy ydwyf'. Adnabu hi fel gwraig gyntaf perchennog y plas. Yna, meddai hi, 'Gwyddoch fy mod wedi marw, ac i'm priod briodi eilwaith, ac nad yw popeth fel yr arferai â bod yn y plas'. Dywedodd yntau y gwyddai.

Ceisiodd hithau ganddo wneuthur ffafr â hi, sef hysbysu ei mab, a ddychwelai o China ymhen ychydig ddyddiau, fod mewn llyfr yn llyfrgell y plas nifer o nodau banc a oedd yn eiddo iddo ef. Nododd y silff, a'r llyfr a gynhwysai'r nodau. Addawodd yntau wneud yr hyn a ddymunai a diflannodd yr ysbryd yn sydyn. Pan ddychwelod y dyn ieuanc adref, ni ddywedodd air wrth ei fam a'i chwaer am yr hyn a welodd, ac yn fuan clafychodd gan ofn a phryder. Ceisiodd gan ei fam alw ar ei gyfaill Owen Thomas i ymweld ag ef. Dywedodd yr hanes wrth Mr. Thomas, a thrannoeth aeth y ddau i'r plas a chael y nodau yn hollol fel yr hysbysodd yr Ysbryd. Mewn diwrnod neu ddau dychwelodd y mab o China, a chafodd yr arian".

Yn yr un bennod trafodir Ysbryd Plas Gwynant, Beddgelert, Ysbryd Hafod Uchdryd, ac yn yr un ardal, Ysbryd yr Hwch a'r Tshaen, Rhos-y-gell. Roedd Ysbryd Brogynin, "...yn croesi'r buarth ar ffurf Ladi Wen" a sonia Evan Isaac am y Ladi Wen yn ei gynefin: "Hanner y ffordd rhwng Taliesin a Thre'r-ddôl y mae'r Lefel Fach, a'i genau yn dod i'r ffordd fawr. Credid yn gryf pan oeddwn i'n hogyn y trigai 'Ladi Wen' yn y lefel, ac y deuai allan pan ddalai tywyllwch, a chydgerdded yn fonheddig â gwahanol bersonau. Ni ddywedai air wrth neb, ac ni allai neb gan faint y braw lefaru wrthi hithau".

Yn 'Llynnoedd a Ffynhonnau' manylir ar hanes Moel Llyn, lle tardd afon Cletwr, a dywedir, "Nid oes ddafn yn rhedeg iddo nac ohono. Y mae'n llyn hunanddigonol ac anghyfnewidiol. Ddechrau Medi, 1936 cefais hanes diddorol gan Richard Griffiths, Llythyrd Tal-y-bont, am ei dad William yn cadw melin yng ngwaelod y pentref a chael dŵr iddi o afon Leri, a'i ewyrth Humphrey yn

gweithio melin Penpompren a chael dŵr o Geulan. Un haf (yn wahanol i eleni) ni chafwyd glaw am wythnosau, sychodd Afon Ceulan a methwyd gweithio'r felin. Wedi i'r brodyr ymgyngori penderfynwyd gollwng Moel Llyn i afon Ceulan, a chael y dŵr i felin Penpompren. Aed i'r mynydd ar ddiwrnod hafaidd a'r awyr yn las, a dechrau agor ffos i ollwng y llyn. Ymhen ychydig, ymffurfiodd cymylau trwm ac isel yn yr awyr, daeth prudd-der i'r mynydd, fflachiodd mell gwyllt, a rhuodd taranau. Credent y byddai'r storm yn malu'n yfflon y carneddau a'r creigiau o'u hamgylch. Dychrynodd y dynion a dianc am eu heinioes. Ym mhen ddeheuol y llyn y mae tua phedair llath o ôl y ffos i'w gweld yn awr. Bu'r digwyddiadau uchod, yn ôl Richard Griffiths, tua 1716".

Gyda'r Nadolig yn ymyl mae'n briodol troi at 'Arferion Diwedd a Dechrau Blwyddyn', lle sonnir am weithio cyflaith noswyl yr ŵyl, am y Plygain yn yr eglwys a'r capeli, hela'r dryw, a chasglu calennig ac Evan Isaac yn canu'r un geiriau a ninnau 70 o flynyddoedd yn ddiweddarach:

Dydd Calan cynta'r flwyddyn,
Rwy'n dyfod ar eich traws,
I 'mofyn am y geiniog,
Neu glwt o fara 'chaws.

Diflannodd y gofod cyn imi sôn am yr ysgrifau diddorol yn Yr *Hen Gyrnol*, lle cyflwynir portreadau rhagorol o'r 'Hen Gyrnol; Caligan; Mari Amos, cymdages reglyd ond caredig wrth yr Evan ifanc; Richard Evans y Crydd; Bugail Lluest Hir; Twm Peg; Huw Llywarch, a'r Hen Glochydd, baledwr o Faldwyn fu'n glochydd a thorrorw beddau yn Llangynfelyn am ddegawdau. Diddorol yw darllen am helynt 'symud y pegiau' yn y fynwent yn ystod y nos!.

W.J.E.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

MID WALES STORAGE

Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

CYNGOR CYMUNED CEULANAMAESMAWR

Yn absenoldeb anorffod y Cadeirydd, gwahoddwyd yr Is-gadeirydd, y Cyngorydd Enoc Jenkins, i'r gadair ar ddechrau'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 26 Tachwedd 2012.

Ray Ceredigion

Cafwyd cyflwyniad bywiog gan Helen Lewis, Swyddog Cyswllt Cymunedol Ray Ceredigion, ar lwyddiant y sesiynau chwarae agored a drefnwyd ganddynt yn y Cae Bach ers mis Chwefror eleni. Trefnwyd cyfanswm o 34 o sesiynau, a fynychwyd ar gyfartaledd gan 18 o blant. Roedd cyfanswm o 88 plentyn wedi cofrestru, a hynny o ardal eang iawn. Ymhlith y gweithgareddau a gynigiwyd i'r plant roedd adeiladu cysgodfannau, dringo, gwisgo lan, coginio, peintio, celf a chreffft, a siglen raff. Roedd sylwadau'r plant i'r gweithgareddau yn ddadlennol iawn, megis 'dyma ail ddiwrnod gorau fy mywyd', a 'gallwch chi aros yma am byth'. Gobeithir parhau'r sesiynau gyda gweithwyr lleol yn ystod 2013, a chynhelir cyfarfod cyhoeddus i'r perwyl hwn ym mis Rhagfyr.

Balchder Pentrefi

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Prosiect Balchder Pentrefi yn hysbysu'r Cyngor iddo fod yn llwyddiannus gyda'r cais am grant o £6,584.68c i wneud gwelliannau yn Nhal-y-bont. Defnyddir arian y grant tuag at godi meinciau cyhoeddus newydd ar y patshyn glas (gan gynnwys un pwrpasol ar gyfer y gysgodfan bysiau), hysbysfwrdd newydd o flaen y Neuadd Goffa, a chysgodfan bysiau newydd ar bwys Maes-y-deri. Hefyd, cytunwyd i fwrw ymlaen gyda'r bwriad i lunio ail gais i'r Prosiect Balchder Pentrefi yn y flwyddyn newydd i godi arwyddion ar nifer o strydoedd y pentref.

Arwydd Ffordd

Adroddodd y Clerc fod ateb wedi ei dderbyn o'r diwedd o'r Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith i gais gan y Cyngor i ail-godi arwydd ar bwys Bwlch-y-garreg yn dangos y ffordd i 'Ponterwyd' a 'Tal-y-bont'. Gobeithir y bydd y Cyngor Sir yn trefnu i osod arwydd newydd yn fuan.

Fferm Wynt Nant-y-moch

Derbyniwyd llythyr gan SSE Renewables yn hysbysu'r Cyngor o'u bwriad i gyflwyno'r cais cynllunio ar gyfer Fferm Wynt Nant-y-moch i'r Arolygiaeth Gynllunio Cenedlaethol yn chwarter cyntaf 2013.

Cynghrair Cymunedau Cymraeg

Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â'r Cynghrair Cymunedau Cymraeg. Bwriad y Cynghrair yw bod yn llais dros gymunedau sydd am weld y Gymraeg yn cael ei chynnal neu ei datblygu yn eu hardal. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Cynghrair ddydd Sadwrn 12 Ionawr 2013. Cytunodd y Cyngorydd Megan Mai i fynychu'r cyfarfod a chyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf, cyn i'r Cyngor benderfynu a yw am ymuno â'r Cynghrair ai peidio.

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Siop y Pethe
Aberystwyth**
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Cymorthdaliadau 2012/13

Cytunwyd ar y trefniadau i hysbysebu a derbyn ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am gymhorthdal gan y Cyngor Cymuned. Dyddiad cau derbyn ceisiadau fydd **9 Ionawr 2013**. Dylid anfon ceisiadau a mantolen ariannol y gymdeithas at Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Pengwern, Tal-y-bont SY24 5EN.

Cynllunio

Derbyniwyd gwybodaeth o'r Cyngor Sir fod y ceisiadau i godi estyniad yn Cwmere ac addasu adeiladau allanol Tŷ Hen Henllys yn unedau gwyliau wedi eu caniatáu, ond gwrthodwyd y cais i godi cartref ar bwys Y Felin Penpompren. Nid oedd unrhyw sylw gan y Cyngor i gais i godi estyniad llawr cyntaf i Clydfan, Tal-y-bont.

Gwteri Ffyrdd

Adroddwyd fod cyflwr y ffordd rhwng Pensarn-ddu a Chwmslaid yn ddrwg iawn am nad oedd y gwteri'n cael eu clirio. Roedd problem gyffelyb rhwng Brynhyfryd a Gwesty'r Llew Du. Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith at y problemau hyn a allai achosi perygl i fodurwyr petai'n rhewi dros fisoedd y gaef.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2012/13

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Gwilym Huws

Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5EN

Dyddiad Cau:

Dydd Mercher 9 Ionawr 2013

Y Gair Olaf



Yr hyn sy'n achosi poendod i mi byth a beunydd yw diffyg rhai pobl i ynganu'n gywir enwau pobl neu enwau llefydd yng Nghymru. Roedd Lisa'n mynd i Lundain gyda'i gwaith y penwythnos diwethaf, ac wrth aros am y trên yng ngorsaf y Borth dyma lais benywaidd yn cyhoeddi yn Saesneg yn unig, 'The train now arriving at platform one ...' (dim ond un platfform sydd yn y Borth!) ac yna'n enwi'r gorsafoedd ar hyd y ffordd lle byddai'r trên yn aros. I berson na wyddai enwau'r gorsafoedd fyddai hwnnw erioed wedi deall fod y trên yn aros ym Machynlleth gan mor wael oedd ynganiad y fenyw o enw'r dref. Ac wrth adrodd ar y newyddion am y llifogydd yng ngogledd Cymru cafodd Hywel Griffiths ei alw'n "Howl" fwy nag unwaith. Mewn llythyr gan Dr Robyn Lewis yn y *Western Mail* yn ddiweddar cwynai fod David Dimpleby wedi cyfeirio sawl tro at Elfyn Llwyd fel "Elphin Clwyd", ac yn gofyn ai haerllugrwydd ynteu ddiogi ar ei ran oedd hyn. Nid oes esgus dros ynganu enwau Cymreig yn anghywir ar fwletinau newyddion gan fod modd i bob darlledwr cydwybodol gael yr wybodaeth angenrheidiol ar sut i ynganu geiriau – mewn unrhyw iaith – dim ond iddo drafferthu i wneud hynny. Felly, diogi yw'r rheswm, dybiaf i. Ar y llaw arall, mae'n werth clywed Derek yn ein cyfarch yn Gymraeg wrth gyflwyno bwletinau'r tywydd – mae clywed 'Henffych' neu 'Mwynhewch y penwythnos' o'i enau yn ganmoladwy, ac erbyn hyn mae ambell un arall yn dilyn ei esiampl drwy ddweud 'Nos da' ar ddiwedd bwletin newyddion.

Carys Briddon

Chwaraeon

DAL ATI



Peter Trudgill wrthi'n ymarfer

Bu ugeiniau o redwyr hen ac ifanc yn cymryd rhan yn Ras 10 Cilometr Aberystwyth ar ddydd Sul 10 Rhagfyr ac ymhlith y rhai hynaf oedd Peter Trudgill, Maesyfelin, Tal-y-bont. Er ei fod yn 77mlwydd oed erbyn hyn, mae Peter yn parhau i gadw'n heini a gwelir ef yn aml yn rhedeg fel milgi drwy'r pentref. Mae Peter, sydd wedi ymddeol ers tro o'i swydd fel darlithydd yn y coleg yn Aberystwyth, wedi byw gyda'i wraig Juliet ym Maesyfelin am dros ddeugain mlynedd. Dechreuodd redeg o ddifri pan oedd yn ei bedwardegau ac ar un achlysur llwyddodd i gwblhau hanner marathon.

Un arall o'r ardal sydd wedi pasio oed yr addewid ond sy'n ddigon heini i redeg hanner marathon yw William Metcalfe, Nirvana,



Bill Metcalfe a'i fab Wayne wedi'r ras fawr.

Taliesin. Rhedodd Bill, ynghyd â'i fab Wayne, Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref mewn dwy awr a deugain munud. Casglodd Bill £1,503 tuag at elusen sy'n codi arian tuag at sgrinio'r ifanc rhag marwolaeth sydyn o drawiad y galon. Y bwriad yw codi ymwybyddiaeth am hyn ac i nodi'r rhai sydd mewn perygl. Mae un sesiwn o sgrinio wedi cael ei gynnal eleni yn barod yn Ysbyty Bronglais ac fe nodwyd pedwar allan o 100 a allai fod mewn perygl, ac felly cânt bob gofal yn nawr rhag unrhyw drawiad posibl. 'Pwyth mewn pryd'!

Dymuna Bill ddiolch o galon i bawb a'i cefnogodd ef mor hael yn ariannol. Rhoddodd hyn yr hwb hyderus iddo gwblhau'r ras.


Gwahoddid ceisiadau i gyflenwi bwyd i'r cyhoedd ar ddydd Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013, **9fed o Dachwedd 2013**, yn Neuadd Pantyfedwen Pontrhydfendigaid. Rhaid wrth dystysgrif gyfredol Diogelwch a Hyllendid Bwyd.
Ateber erbyn y **1af o Fawrth 2013**.
Am ragor o wybodaeth, a thelerau, cysyllter â Jean Williams 01974 831685 neu Myfanwy Huws 01974 831627

loga
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658



Pompren ger y Felin yn cael ei hail godi o'r newydd ar ôl y difrod ym mis Mehefin, gyda un o'r defnyddwyr selocaf yn cadw llygad fod y gwaith yn cael ei wneud yn iawn, a bod y sylfeini'n gadarn.

NABOD NHW?



Daeth nifer o ddalgylch Papur Pawb i'r Neuadd Goffa fore Sadwrn 10 Tachwedd i dreulio bore difyr yn edrych trwy hen luniau Papur Pawb. Trefnwyd yr achlysur gan Gymdeithas Papur Pawb a oedd yn awyddus i ganfod enwau'r sawl oedd yn rhai o hen ffotograffau'r papur. Mae'n amlwg fod cof da gan lawer a llwyddwyd i enwi aelodau o dimau chwaraeon, mynychwyr sioe a charnifal a phlant yn yr ysgolion lleol. Bydd y lluniau a'r enwau yn awr yn cael eu casglu ynghyd a'u gosod yn y man ar wefan Casgliad y Werin.



Ffair Nadolig Castell Glandyfi



Bore Coffi Sioe Arddwriaethol Llancynfelyn

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com